**<u>Sesiwn Briffio Aelodau – Land and Lakes – 11.9/15</u>**

**Yn bresennol:**

**<u>Cynghorwyr</u> :** Ann Griffith, John Griffith, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Meirion Jones, R Llewelyn Jones, J Arwel Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Nicola Roberts, Ieuan Williams.

**<u>Swyddogion</u>**: Arthur Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cynaliadwyaeth), E Gwyndaf Jones (Prif Swyddog Cynllunio), David Pryce Jones (Swyddog Achos Arweiniol), Huw Thomas (Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd), Mick Goodfellow (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd) Gary Soloman (Burges Salmon)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**: Cynghorwyr: Jeff Evans, Richard Dew, Vaughan Hughes Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Gwilym O Jones, H Eifion Jones, Alwyn Rowlands.

Trefnwyd y cyfarfod anffurfiol yn unol â chais yr Aelodau yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 29.7.15.

Yn dilyn cyflwyniad gan y Prif Swyddog Cynllunio, rhoes y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd drosolwg mewn perthynas â'r tir llygredig ar Safle Cae Glas. Gofynnodd yr Aelod sut fath o wastraff a thrwytholchion oedd ar y safle a faint fyddai cost adfer y safle. Yn ogystal, gwnaeth yr Aelodau amgrymiadau o ran y strategaeth adfer a chytunwyd i nodi'r rhain yn glir yn yr adroddiad i'r pwyllgor.

Yna, cymerwyd yr awennau gan Mr Gary Soloman o Burges Salmon a rhoes drosolwg o'r materion a nodwyd yn y nodyn briffio a oedd yn seiliedig ar bryderon a fynegwyd gan Aelodau'n dilyn y Pwyllgor Cynllunio ar 29.07.15. Roedd hyn yn cynnwys amlinelliad o'r modd y byddai arian a dderbynnir yn cael ei ddefnyddio, beth oedd yn gymwys i gael ei ystyried yn 'ddefnydd etifeddiaeth' a'r cyfyngiadau ar ddefnydd yn seiliedig ar ddarpariaethau unrhyw gontract a lofnodwyd gan Land and Lakes a Pŵer Niwclear Horizon.

Yna, cafwyd disgrifiad o'r math o fondiau fyddai'n cael eu defnyddio a throsolwg o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwasanaethau argyfwng a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Codwyd pwyntiau ychwanegol gan yr Aelodau yn y sesiwn friffio o ran ansawdd yr unedau a fydd yn cael eu hadeiladu yn Cae Glas/Kingsland a thai fforddiadwy.